# Asesiad Ariannol Gwasanaethau Cymdeithasol

**Unwaith y byddwn wedi asesu eich bod yn gymwys ar gyfer gwasanaeth gofal cymdeithasol, byddwn yn cynnal asesiad ariannol i benderfynu faint y byddwch yn ei dalu.**

Mae'r asesiad ariannol yn ffordd o gyfrifo faint o arian sydd gennych i'w dalu tuag at gost eich gofal.

Er mwyn i ni gynnal asesiad ariannol byddwn yn gofyn i chi gwblhau ffurflen i gael manylion eich incwm (er enghraifft, budd-daliadau, pensiwn y wladwriaeth, pensiwn gwaith) eich cyfalaf (er enghraifft, cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu, cyfranddaliadau, tystysgrifau cynilion cenedlaethol ) a'ch treuliau.

## Gofal Preswyl

Bydd gennych 14 diwrnod i ddarparu'r wybodaeth hon. Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i ni os na allwch wneud hyn.

Rydym yn cadw'r holl wybodaeth hon yn gyfrinachol.

## Eich incwm

Edrychwn ar yr arian a gewch o bensiynau, o'r rhan fwyaf o fathau o fudd-daliadau, neu o ffynonellau eraill megis taliadau gan bobl eraill. Byddwn yn cyfrif yr incwm sydd gennych ar ôl tynnu'r dreth.

## Eich cynilion

Oherwydd y gallwch ennill llog neu ddifidendau ar gynilion, rydym yn eu cynnwys yn ein hasesiad ariannol. Edrychwn ar yr arian sydd gennych yn y banc neu gyfrifon cynilo, mewn stociau a chyfranddaliadau neu fuddsoddiadau eraill.

Os yw eich cynilion yn fwy na £50,000 codir yr uchafswm tâl a bennir gan Lywodraeth Cymru yn awtomatig arnoch. Os ydych yn berchen ar eiddo, gweler ein gwybodaeth ar 'Bod yn berchen ar eich cartref eich hun a gohirio taliadau'.

Fodd bynnag, efallai y bydd achosion lle nad yw arbedion dros £50,000 yn cael eu dosbarthu fel asedau cyfalaf. Gallai rhai mathau o asedau gael eu trin fel incwm ac

nid fel cyfalaf. Gallai hyn effeithio ar y swm y byddai angen i chi ei dalu tuag at eich gofal.

Felly, hyd yn oed os yw eich cynilion dros £50,000 efallai y byddwch am roi manylion eich asedau i ni fel y gallwn eu hasesu'n briodol. Yna gallwn ddweud wrthych a yw hyn yn gwneud gwahaniaeth i'ch sefyllfa ariannol.

## Eich treuliau

Rydym yn gwneud lwfans ar gyfer eich gwariant personol a chaiff y swm hwn ei osod gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Rydym hefyd yn diystyru rhai buddion megis elfen Symudedd/Symudedd DLA y Taliad Annibyniaeth Personol.

## Cyfrifo beth fyddwch chi'n ei dalu

Unwaith y byddwn wedi casglu’r holl wybodaeth ariannol, y swm y byddwch yn ei dalu fydd y gwahaniaeth rhwng eich:

- cyfanswm incwm wythnosol a aseswyd
- Cyfanswm ar ôl tynnu'r treuliau a ganiateir

Am ragor o wybodaeth gweler ein taflen Talu am Ofal Preswyl.